Teitl y Swydd: Cydymaith Ymchwil Therapydd Iaith a Lleferydd, Cyfrwng Cymraeg

Uned/Ysgol: Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd

Gradd: 6A/B

HERA: RIS009

**Prif bwrpas y rôl**

Byddwch yn gweithio ar brosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer datblygu a gwerthuso offeryn gwyliadwriaeth dwyieithog o ddatblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu cynnar plant yng Nghymru.

Byddwch yn gyfrifol am gasglu data, gan gynnwys asesu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg. Byddwch yn gweithio'n agos gyda'r Rheolwr Prosiect a'r Uwch Gydymaith Ymchwil. Mae'r Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon.

Mae'n debyg mai ardaloedd casglu data'r prosiect hwn fydd Gwynedd, Ceredigion, a Sir Gaerfyrddin. Bydd disgwyl i chi ddefnyddio'ch cludiant eich hun i deithio i'r lleoliadau amrywiol hyn, gyda chostau milltiredd yn cael eu talu gan y prosiect.

**Cyfrifoldebau a chyfraniadau allweddol**

- Byddwch yn cefnogi'r gwaith o dreialu offer ymyrryd.
- Byddwch yn cyfrannu at ddylunio protocolau i asesu sgiliau lleferydd ac iaith yn y Gymraeg i blant dan 5 oed.
- Byddwch yn teithio i leoliadau cyfranogwyr, gan gynnwys cartrefi a lleoliadau blynyddoedd cynnar, i asesu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu.
- Byddwch yn rhoi barn glinigol ar anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu plant dan 5 oed.
- Byddwch yn casglu ac yn rhannu casglu data ar gyfer y prosiect gydag aelodau eraill o dîm y prosiect yn unol â phrotocolau ymchwil.
- Byddwch yn cynllunio ac yn trefnu eich amser yn effeithiol i ddiwallu anghenion y prosiect, tra hefyd yn gweithio gyda rhieni/gofalwyr ac ymarferwyr blynyddoedd cynnar i drefnu ymweliadau casglu data.
- Byddwch yn gweithio fel rhan o dîm o gymdeithion ymchwil i sicrhau bod arferion casglu data prosiect yn ddibynadwy ac yn effeithiol.

**Manyleb person**

**Cymwysterau hanfodol / Aelodaeth broffesiynol**

- BSc/MSc mewn Therapi Iaith a Lleferydd, neu gyfwerth.
- Therapydd iaith a lleferydd sydd wedi'i gofrestru gyda HCPC.
- Trwydded yrru lawn.

**Profiad, gwybodaeth a sgiliau hanfodol**

1. Gwybodaeth am ddatblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu cynnar plant.

2. Ymwybyddiaeth o'r cyd-destun y mae datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu yn digwydd ynddo yng Nghymru.

3. Y gallu i ymgysylltu a chysylltu â phlant ifanc a'u teuluoedd, yn ogystal ag ymarferwyr.

4. Y gallu i gynnal asesiadau o sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu plant yn Gymraeg a Saesneg a dod i benderfyniad clinigol ynghylch presenoldeb neu absenoldeb anghenion lleferydd, iaith a/neu gyfathrebu.

5. Y gallu i ddilyn protocolau ymchwil ar gyfer casglu a storio data.

6. Sgiliau dadansoddi rhagorol.

7. Y gallu i gyfleu gwybodaeth gymhleth yn glir, ar lafar ac yn ysgrifenedig.

8. Yn gymwys yn y defnydd o Microsoft Office.

9. Y gallu i ddatblygu perthnasoedd gwaith cynhyrchiol fel rhan o dîm proffesiynol.

10. Profiad sylweddol o asesu datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu plant ifanc Cymraeg eu hiaith, a darparu barn broffesiynol.

11. Profiad o weithio i derfynau amser tynn.

**Dymunol**

1. Gwybodaeth am ddulliau ymchwil a dadansoddi data.

2. Gwybodaeth am becynnau meddalwedd ymchwil.

3. Profiad o weithio ar brosiectau ymchwil.

**Gofynion sgiliau Cymraeg**

Mae'r Gymraeg yn hanfodol i'n myfyrwyr a'n staff ac mae'n rhan allweddol o'n darpariaeth a'n gwasanaethau. Ar gyfer pob swydd ym Met Caerdydd, mae hyfedredd yn y Gymraeg naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y lefelau drwy edrych ar ein llyfryn: Lefelau sgiliau Cymraeg. Os yw sgil wedi'i rhestru fel un hanfodol yn y tabl isod, gwnewch yn siŵr eich bod yn gwneud hyn glir yn eich ffurflen gais ar-lein.

| Lefel iaith a disgrifydd | Gwrando | Darllen | Siarad | Ysgrifennu |
|---|---|---|---|---|
| **A1 – Dechreuwr**<br>Yn gallu deall a defnyddio dywediadau cyfarwydd bob dydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg. | | | | |
| **A2 - Defnyddiwr sylfaenol**<br>Yn gallu delio â gwybodaeth gyffredin a syml a chyfathrebu mewn Cymraeg sylfaenol. | | | | |
| **B1 - Defnyddiwr canolradd**<br>Yn gallu cyfathrebu, i lefel gyfyngedig, yn y Gymraeg am bethau sy'n gyfarwydd a/neu'n gysylltiedig â gwaith. | | | | |
| **B2 - Defnyddiwr canolradd uwch**<br>Yn gallu mynegi fy hun yn y Gymraeg ar ystod o bynciau a deall y rhan fwyaf o sgwrs â siaradwr brodorol. | | | | |
| **C1 - Defnyddiwr rhugl**<br>Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg. | | | | |
| **C2 - Meistrolaeth**<br>Yn gallu cyfathrebu'n rhugl ar faterion cymhleth ac arbenigol yn Gymraeg. | Hanfodol | Hanfodol | Hanfodol | Hanfodol |

**Gofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**

Mae'r swydd hon yn gofyn am wiriad manylach o restr gwaharddedig plant y DBS.

**Gwybodaeth ategol**

Mae'r Brifysgol yn sefydliad deinamig ac efallai y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Ni fwriedir i'r disgrifiad swydd a'r manyleb person hwn fod yn gynhwysfawr.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau ymddygiad moesegol a phroffesiynol uchaf. Felly, disgwylir i bob gweithiwr roi sylw dyledus i effaith eu hymddygiad personol ar y Brifysgol, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid busnes a'n cymuned. Rhaid i bob gweithiwr ddangos ei fod yn cydymffurfio â'n Cod Ymddygiad Proffesiynol. Yn ogystal, dylai pob gweithiwr roi sylw arbennig i'w cyfrifoldebau o dan bolisïau a gweithdrefnau Prifysgol Metropolitan Caerdydd.